# Adroddiad Blynyddol Panel Rhiant Corfforaethol

# 2023/24



## 1. Cyflwyniad a chyd-destun: Rôl y Panel Rhiant Corfforaethol

1.1. Mae gan Gyngor Gwynedd a'i bartneriaid gyfrifoldebau statudol i weithredu fel rhieni corfforaethol ar gyfer plant mewn gofal.

1.2. Daw plant a phobl ifanc i ofal y Cyngor o dan amgylchiadau anodd iawn, ond mae'r Cyngor yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. Y nod yw eu bod yn byw bywyd mor hapus â phosib. Mae gan unrhyw blentyn sydd yn cael ei ofalu amdano gan y Cyngor yr hawl i ddisgwyl yr un peth gan ei riant corfforaethol ag a fyddai unrhyw blentyn arall yn ei ddisgwyl gan riant da.

1.3. Golygai hyn y bydd y Cyngor yn:

- Deall eu hanghenion, eu doniau, a'u breuddwydion, a chefnogi eu diddordebau;
- Dal uchelgais uchel am eu dyfodol ac yn disgwyl y gorau ganddynt ac ar eu cyfer;
- Dathlu eu llwyddiannau a'u cefnogi trwy heriau;
- Gwrando ar eu barn a'u hymgorffori mewn gwasanaethau a pholisïau;
- Sicrhau eu bod yn rhan o gynllunio eu bywydau a'u cynnwys mewn penderfyniadau;
- Cydnabod, cefnogi a pharchu eu hunaniaeth ymhob ffordd;
- Hyrwyddo a chefnogi cyflawniad addysgol i orau eu gallu gan sicrhau mynediad at addysg o safon uchel a chyfleoedd dysgu eang;
- Cefnogi eu hiechyd a lles emosiynol;
- Darparu cartref diogel a sefydlog lle bo ymdeimlad o berthyn;
- Cefnogi eu siwrne o fod yn blant i oedolion a'u paratoi i fod yn drigolion cyfrifol sydd yn cyfrannu i'r gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

1.4. Er mwyn cynnal y swyddogaeth hon, mae'r Cyngor yn cynnull Panel Rhiant Corfforaethol. Mae gan y Panel gyfrifoldeb penodol ac uniongyrchol i sicrhau bod gwasanaethau aml-asiantaeth priodol ac addas ar gael, a bod y rhain o ansawdd uchel, yn hygyrch ac yn cwrdd â'u hanghenion. Cydweithir gyda phartneriaid i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bob plentyn sydd mewn gofal.

1.5. Mae Aelodaeth y Panel Rhiant Corfforaethol yn cynnwys:

- Prif Weithredwr (Cadeirydd)
- Aelod Cabinet yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd
- Aelod Cabinet Addysg
- Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaeth Cymdeithasol (arddelir rôl Cyfarwyddwr Arweiniol Plant a Phobl Ifanc hefyd)
- Pennaeth yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd
- Pennaeth Addysg
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr


## 2. Data: Trosolwg o'r flwyddyn a fu

2.1. Cyflwynir yr wybodaeth isod ar sail ffigyrau diwedd chwarter pedwar 2024. Mae'n cynnwys ffigyrau cymharol o'r pum mlynedd flaenorol:

| Plant mewn gofal ar 31 Mawrth | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o blant mewn gofal ar ddiwedd y flwyddyn | 253 | 291 | 281 | 273 | 281 | 281 |
| Nifer o blant wedi dod i ofal yn ystod y flwyddyn | 66 | 82 | 46 | 46 | 59 | 65 |
| Nifer o blant wedi gadael gofal yn ystod y flwyddyn | 40 | 44 | 56 | 54 | 51 | 65 |
| Nifer o blant sy'n Geiswyr Lloches ar eu Pen eu Hunain | 1 | 1 | 0 | 3 | 15 | 14 |

2.2. Ar 31 Mawrth 2024, roedd **281** o blant mewn gofal, yr un cyfanswm â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod rhai plant wedi gadael gofal yn ystod y flwyddyn tra bod plant eraill wedi dod i mewn i ofal, felly arhosodd y nifer cyffredinol yn gyson er gwaethaf newidiadau o fewn y grŵp.

2.3. <u>Math o leoliad</u>




2.3.1. Fel y dengys y graff uchod, o'r **281** plentyn oedd yn ein gofal ar ddiwedd Mawrth 2024, roedd **184** (65%) mewn lleoliadau maeth, **13** (5%) mewn lleoliadau preswyl a **61** (21%) wedi eu lleoli gyda'u rhieni. Roedd **2** plentyn mewn lleoliadau mabwysiedig ar ddiwedd y chwarter gyda **16** person ifanc yn byw yn annibynnol gyda chefnogaeth.

2.3.2. Yn anffodus yn ystod 2023/24 bu'n rhaid hefyd defnyddio trefniadau lleoliadau heb gofrestriad (OWR) ar gyfer **5** o bobl ifanc. Yn hanesyddol mae'r defnydd o drefniadau o'r fath wedi bod yn brin iawn ac adlewyrcha'r cynnydd yma y sefyllfa yn genedlaethol, gyda'r mwyafrif, os nad pob awdurdod yn cael eu gorfodi i sicrhau trefniant o'r fath oherwydd diffyg lleoliadau cofrestredig ar draws y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn arbennig wir am bobl ifanc yn eu harddegau sydd ag anghenion dwys a chymhleth neu wedi profi toriad mewn lleoliad oherwydd ymddygiad heriol. Mae'r tîm yn gweithio'n galed er mwyn ceisio sicrhau lleoliadau cofrestredig i'r pobl ifanc, a rhagwelir y bydd y nifer yn gostwng yn fuan yn 2024/25.

2.4. <u>Lleoliad daearyddol</u>

2.4.1. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd **198** (70**%**) o blant mewn gofal wedi eu lleoli yng Ngwynedd. Roedd **45** (16**%**) o blant wedi ei leoli yng Ngogledd Cymru, gyda **29** (10%) o'r plant yma wedi eu lleoli yn y siroedd agosaf (Môn a Chonwy).

2.4.2. I rhai plant mae dewis i'r Cyngor rhwng lleoli gyda gofalwyr maeth cyffredinol o fewn y sir neu gyda theulu estynedig. Gall y teulu estynedig fod yn byw tu allan i ffiniau Gwynedd ac felly plentyn felly yw cael ei leoli'n all sirol, ond bod y lleoliad yn parhau o fewn ei deulu estynedig. Mae cyfanswm o **26** (9%) o blant wedi eu lleoli y tu allan i Gymru, gyda **3** o'r rhain mewn lleoliadau preswyl a'r gweddill naill ai wedi eu lleoli gyda rhieni neu berthnasau.




** Nid yw'r lleoliadau yma yn cael ei ddatgelu gan ei fod yn wybodaeth sensitif*

2.5. Plant wedi dod i ofal yn ystod y flwyddyn

2.5.1. Yn ystod y flwyddyn gyfan daeth **62** o blant mewn i ofal, o gymharu â **59** yn ystod 2022/23.

2.5.2. Mae'r tabl isod yn dangos oedrannau'r plant ddaeth i ofal yn ystod 2023/24. Roedd **37%** o’r plant a ddaeth i ofal yn ystod y flwyddyn o dan 5 oed, gyda’r mwyafrif ohonynt wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant fel rhan o brosesau diogelu cyn dod i ofal. Mae hyn o ganlyniad i nifer o resymau, ond yn benodol, plant ifanc yn cael eu cam-drin a'u hesgeuluso; camdriniaeth emosiynol; trais yn y cartref; camddefnyddio sylweddau; a mamau sydd â phlant blaenorol wedi mynd i ofal yn beichiogi a heb wneud y newid angenrheidiol yn eu bywydau i fedru gofalu yn ddiogel am y plentyn.

| O dan 1 oed | 1 – 5 oed | 6 – 10 oed | 11 – 15 oed | 16+ |
|---|---|---|---|---|
| 12 | 14 | 8 | 16 | 12 |

2.6. Ceiswyr Lloches ar eu Pen eu Hunain (Unaccompanied Asylum Seeking Children)

2.6.1. Noder fod y Cyngor wedi derbyn **29** Ceisiwr Lloches drwy Gynllun Trosglwyddo’r Swyddfa Gartref ers mis Rhagfyr 2022. Daw’r mwyafrif o Afghanistan er bod niferoedd bychan wedi cyrraedd o nifer o wledydd eraill megis Iraq, Twrci, Fietnam ac Yr Aifft. Roedd **14** ohonynt yn blant mewn gofal ar 31 Mawrth 2024 (gyda **15** ohonynt bellach wedi gadael gofal).

2.6.2. Mae ceiswyr lloches yn cynrychioli **18%** o’r plant a ddaeth i ofal eleni. Ychydig iawn o wybodaeth gefndirol sydd ar gael yn yr achosion hyn ac y brif her yw darganfod lleoliadau sefydlog ac sy’n addas o safbwynt eu hoedran, anghenion ieithyddol a diwylliannol ac yn aml y trawma difrifol maent wedi ei brofi.


2.6.3. O’r **14** sydd mewn gofal, mae **2** wedi ei leoli mewn lleoliad maeth yng Ngwynedd a **12** wedi eu lleoli tu allan i’r sir.

2.6.4. Mae’r gwaith hwn yn ychwanegiad sylweddol i lwyth gwaith y Tîm Ôl 16, gyda chymhlethdod ychwanegol yn perthyn i’r achosion, y trefniadau cyfieithu ac yn ogystal y gwaith sydd angen ei gwblhau gyda’r Swyddfa Gartref fel rhan o’r ceisiadau “hawl i aros” (Right to Remain). Er mwyn ceisio ymateb i’r pwysau cynyddol mae’r Cyngor wedi sicrhau fod y Tîm Ôl 16 yn derbyn adnodd ychwanegol, ac fe grëwyd dwy swydd newydd dros dro.

2.6.5. Mae pob un ohonynt yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y Cyngor tra bod y Swyddfa Gartref yn rhoi ystyriaeth i’w achosion unigol.

2.7. Plant wedi gadael gofal yn ystod y flwyddyn

2.7.1. Yn ystod y flwyddyn gyfan fe aeth **65** o blant allan o ofal. Bu i **29** person ifanc droi'n ddeunaw oed, gyda **7** ohonynt yn aros gyda'u gofalwyr maeth o dan drefniant '*Pan Fyddai'n Barod'* a **1** yn trosglwyddo i wasanaethau Oedolion gydag anghenion cymhleth. Dychwelodd **6** plentyn yn ôl i ofal ei rhieni ar ôl cyfnodau byr mewn gofal. Diddymwyd gorchymyn gofal yn gyfan gwbl ar **15** plentyn. Gwnaethpwyd Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig neu Orchymyn Goruchwylio **11** plentyn (sy'n golygu nad ydynt bellach yn blant mewn gofal). Gwnaethpwyd Gorchymyn Mabwysiadu ar **4** blentyn yn ystod y cyfnod.




2.8. Cefnogaeth i atal plant ddod i ofal

2.8.1. Cynigia'r Cyngor wahanol haenau o gefnogaeth i deuluoedd - yn amrywio o'r Tîm o Amgylch y Teulu sy'n ymyrryd yn gynnar pan fo problemau'n dod i'r amlwg i gefnogaeth fwy dwys gan y Gwasanaethau Trobwynt i blant sydd ar fin dod i ofal. Gweithia'r timau yn agos gyda theuluoedd, gan ddeall eu heriau a chydweithio â rhieni i wella eu sefyllfa. Mae'r dull hwn yn helpu i atal lleoli plant mewn gofal yn ddiangen.

2.8.2. Rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024 gweithiodd y Gwasanaethau Trobwynt gyda **178** o blant. Dechreuodd y tîm weithio gyda **112** o achosion newydd yn ystod y cyfnod. Yn ystod y flwyddyn, daeth ymyrraeth y tîm i ben gyda **108** o blant. Roedd **72** o'r rhain yn byw gartref

gyda'u rhieni heb orchymyn gofal ar gychwyn yr ymyrraeth. Ar ddiwedd yr ymyrraeth roedd **61** (85%) yn parhau i fyw gartref.

2.8.3. Gweithiodd y Gwasanaeth gyda **26** o rieni oedd efo un neu fwy o blant mewn gofal er mwyn eu cefnogi i dorri'r cylch.

2.8.4. Dengys y dyfyniad isod werthfawrogiad a phwysigrwydd gwaith y tîm, gan newid bywydau rhai teuluoedd yn gyfan gwbl:

> ***"Dydw i ddim yn siŵr fyswn i'r person ydw i heddiw hebddo chi yno i'm harwain, gwrando arna i a dysgu'r holl bethau dwi'n gwybod rŵan. Diolch eto am bopeth."***
>
> *Rhiant a dderbyniodd gefnogaeth gan y Gwasanaeth trobwynt*

## 3. Gweithrediad y Panel dros y flwyddyn

3.1. Cartref sefydlog a diogel

3.1.1. Mae lleoliadau sefydlog yn hanfodol i greu ymdeimlad o berthyn a diogelwch ym mywyd pob plentyn. Pan mae angen lleoli plentyn mewn gofal, dymunir eu cadw yn agos at eu teulu a'u bro. Felly, canolbwyntir ar ddod o hyd i ffyrdd o letya a gofalu am blant a phobl ifanc yn nes at adref, fel y gallent barhau i fod yn rhan o’u cymuned a chynnal eu rhwydweithiau cymorth.

3.1.2. Mae gofal maeth lleol o’r ansawdd gorau yn annatod. Ymfalchïa’r Cyngor yn ei allu i gynnig gofal maeth o’r safon uchaf ac mae’n buddsoddi mewn recriwtio, asesu a chofrestru gofalwyr maeth y sir. Ar ddiwedd Mawrth 2024 roedd **68** cartrefi maeth cyffredinol wedi'u cofrestru gyda Gwasanaeth Maethu Cymru Gwynedd. Mae hyn o’i gymharu â **71** yn 2023.

3.1.3. Darperir cefnogaeth ymarferol a phroffesiynol i’r holl deuluoedd maeth. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 7% (19) o’r plant mewn gofal yng Ngwynedd wedi profi 3 neu fwy o symudiadau yn eu lleoliad. Mae hyn ychydig yn uwch na’r ganran ar gyfer 2022/23, sef **5%**.

3.1.4. Weithiau mae amgylchiadau unigol yn golygu fod angen i leoli plentyn mewn lleoliad preswyl. Mae hyn yn codi o gyfuniad o ffactorau a all gynnwys anghenion cymhleth, ymddygiad heriol, lleoliadau maeth aflwyddiannus yn flaenorol neu angen arbenigol sy'n golygu na fyddai lleoliad mewn amgylchedd teuluol yn addas.

3.1.5. Mae’r galw am leoliadau preswyl yn fwy na’r cyflenwad, sy’n her sylweddol i awdurdodau lleol o ran dod o hyd i leoliadau sydd mor agos â phosibl at ardal cartref y plentyn. Ar yr un pryd, gwelwyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu elw preifat yn gyfan gwbl oddi fewn trefniadau plant sy’n derbyn gofal.

3.1.6. Mae Cartrefi Grŵp Bach yn brosiect yng Nghynllun y Cyngor 2023-28 sy’n ceisio mynd i’r afael a’r angen hynny. Y bwriad yw datblygu cartrefi preswyl cofrestredig fydd yn cael eu rhedeg gan y Cyngor ar gyfer grwpiau bychan o hyd at ddau o blant fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol, a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau.

3.1.7. Yn ystod 2023/24 fe:

- Brynwyd yr eiddo cyntaf ar gyfer ei droi yn gartref preswyl yn ardal Dwyfor.
- Penodwyd Rheolwr Prosiect fydd yn gweithio i ddatblygu’r cynllun newydd.
- Cwblhawyd Achos Fusnes ar gyfer sefydlu’r Cartrefi Grŵp Bychan.
- Cyflwynwyd Cais Cyfalaf ar gyfer prynu / addasu eiddo drwy’r rhaglen ICF.

- Datblygwyd “Datganiad o Bwrpas” a pholisïau ar gyfer y datblygiad gan y bydd eu hangen i gofrestru’r uned gydag Arolygaeth Gofal Cymru.

3.1.8. Gobeithir penodi rheolwr yn fuan yn 2024/25 er mwyn agor y cartref cyn diwedd y flwyddyn. Parha hefyd gyda’r gwaith o chwilio am eiddo neu safleoedd eraill er mwyn datblygu rhagor o gartrefi preswyl.

3.2. Cefnogi iechyd a lles

3.2.1. **Asesiadau Iechyd**

3.2.1.1. Nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bod yn rhaid i'r holl blant sy'n derbyn gofal gael asesiad iechyd. Pan fydd plentyn yn dod "mewn i ofal", dylai paediatregydd cymunedol gynnal asesiad iechyd cychwynnol (IHA) o fewn 28 diwrnod. Roedd **55** o Asesiadau Iechyd Newydd i fod i'w cynnal yn ystod y flwyddyn, gyda **18%** wedi'u cynnal o fewn yr amserlen ofynnol. Achosir oedi gan yr amserlen gyfyngedig, rhannu gwybodaeth yn amserol a chapasiti clinigol y pediatregwyr. Er bod rhai yn hwyr, mae pob asesiad fel arfer yn cael ei gwblhau o fewn ychydig ddyddiau i'r dyddiad targed.

| Nifer Asesiadau i’w cynnal | Nifer Asesiadau a gwblhawyd | Nifer Asesiadau ar amser | Nifer Asesiadau yn hwyr |
|---|---|---|---|
| 55 | 53* | 10 | 43 |

** 1 wedi gwrthod asesiad a 1 heb ei gynnal hyd at 31.3.24*

3.2.1.2. Mae disgwyl i blentyn mewn gofal hefyd dderbyn Asesiad Adolygu Iechyd yn rheolaidd (pob 6 mis i blentyn o dan 5 oed a phob blwyddyn i blentyn dros 5). Roedd **280** o Asesiadau Adolygu Iechyd i fod i'w cynnal yn ystod y flwyddyn, gyda **66%** wedi'u cynnal o fewn yr amserlen ofynnol. Roedd **82** yn hwyr oherwydd problemau gyda salwch gofalwyr, canslo apwyntiadau, teuluoedd ar wyliau a newidiadau i leoliadau na ellid eu hosgoi.

3.2.1.3. Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd y Bwrdd Iechyd adolygu'r broses o gasglu ac adrodd ar ddata ag strwythurau adrodd asesiadau iechyd Plant mewn Gofal er mwyn adnabod gwelliannau a fydd yn cynorthwyo cwblhau mwy amserol wrth symud ymlaen. Cwblhawyd hyfforddiant ar lefel rhanbarthol ar draws ardal Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i sicrhau cysondeb.

3.2.1.4. Yn ystod 2024/25, bydd y Panel hefyd yn edrych yn fanylach ar ddata’r asesiadau iechyd gan graffu hyd a chwmpas y cyfnod aros. Bydd yn ymchwilio i rwystrau ac achosion oedi, ac unrhyw fesurau y gellir eu cymryd i symleiddio'r drefn.

### 3.2.2. **Iechyd Meddwl**

3.2.2.1. Mae plant mewn gofal yn fwy tebygol o brofi problemau iechyd meddwl oherwydd eu hamgylchiadau a phrofiad o drawma. Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd **25** o'r **281** Plentyn Mewn Gofal yng Ngwynedd, yn agored i Wasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) gyda **14** arall ar y rhestr yn aros i'w gweld. Mae **111** yn rhagor o blant mewn gofal â phroblemau emosiynol neu ymddygiadol, ac yn derbyn gwasanaethau megis Gweithredu Dros Blant, NSPCC neu wasanaethau Ymgynghori Plant mewn Gofal.

3.2.2.2. Cydweithia ymarferwyr CAMHS a'r Tîm Iechyd Plant mewn Gofal yn agosach â gofalwyr i adnabod a darparu cymorth. Parhaodd y gwaith peilot gyda theuluoedd maeth, gyda'r nod o osod gwaelodlin ar gyfer llesiant iechyd meddwl i'r plant oedd yn dod i ofal. Y bwriad yw adnabod problemau yn gynharach, yn seiliedig ar adroddiadau gan ofalwyr, a chynnig ymyrraeth amserol pan fo angen.

3.2.2.3. Casglwyd adborth gan blant mewn gofal a'u gofalwyr i gael dealltwriaeth gliriach o'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Cyflwynwyd cais i sefydlu swydd benodol gyda CAMHS, gyda'r bwriad o asesu'n ofalus y math o gefnogaeth sydd angen i sicrhau ein bod yn bodloni anghenion iechyd meddwl a lles pob plentyn mewn gofal.

3.2.2.4. Cyniga Gwasanaeth RAP (Repatriation and Prevention) sydd yn cael ei gomisiynu gan Gweithredu Dros Blant (Action for Children) ymyrraeth ddwys a mynediad at sesiynau cwnsela a therapi er mwyn cefnogi rhieni a gofalwyr maeth i reoli ymddygiad heriol a sicrhau lleoliadau sefydlog. Gweler astudiaeth achos isod sy'n amlygu pwysigrwydd y gwasanaeth yma:

**Stori Beca***

Roedd Beca, 9 oed, yn cael trafferth ymdopi mewn gofal maeth, ac oherwydd ei hymddygiad fe dorrodd ei lleoliad cyntaf i lawr yn llwyr. Daethpwyd o hyd i gartref maeth newydd i Beca, ac ymyrrodd Gwasanaeth RAP Gwynedd i atal chwalfa arall.

Deilliodd ei hymddygiad heriol o'i hawydd i ddychwelyd adref. Dechreuodd fynychu sesiynau therapi, gan roi man diogel lle gallai feithrin ymddiriedaeth. Yn ystod y sesiynau cafodd gyfle i arlunio a chreu lluniau ac roedd hyn yn help i fynegi ei hun yn well. Dros amser daeth i ddeall ei hemosiynau, ei pherthynas gyda'i theulu, a'r dryswch ynghylch ei symud o gartref.

Mynychodd Beca **41** o sesiynau dros **18 mis**. Sefydlogodd ei lleoliad, ac fe ddychwelodd adref i gartref ei rhieni yn ddiweddarach. Gyda chefnogaeth barhaus mae Beca a'i theulu yn ffynnu.

**Enw wedi newid er mwyn diogelu preifatrwydd*

3.2.2.5. Mae cyd-weithio agos rhwng y Tîm-Ôl 16 a’r Tîm Iechyd i gwblhau atgyfeiriadau amserol i'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau pobl ifanc - "Be Di'r Sgôr”. Yn ystod 2023/24 penodwyd nyrs i weithio’n agos gyda’r rhai sy’n gadael gofal ac fe amlygwyd bylchau penodol ar gyfer cymorth wrth drosglwyddo i wasanaethau iechyd meddwl oedolion. Galluoga’r swydd ddarparu cymorth wedi’i dargedu a gwaith ataliol ar gyfer y grŵp yma.

3.2.3. **Gwasanaeth Niwroddatblygol**

3.2.3.1. Mae heriau yn y maes niwroddatblygol yn parhau ac yn genedlaethol mae galw cynyddol am ddiagnosis wedi arwain at bwysau ar y gwasanaeth.

3.2.3.2. Ar hyn o bryd mae **20** o blant mewn gofal wedi eu cyfeirio at y Gwasanaeth Niwroddatblygiadol ac yn aros i gael eu gweld, fodd bynnag, oherwydd y cynyddu mewn cyfeiriadau mae'r rhestr aros bellach dros ddwy flynedd. Yn ystod 2023/24 cychwynnodd y trafodaethau rhwng Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Llywodraeth Cymru ynglŷn â gwella’r gwasanaeth niwroddatblygol.

3.2.3.3. Yng Ngwynedd lansiwyd Gwasanaeth Awtistiaeth newydd yn ystod 2023/24. Darpara'r tîm wybodaeth, cyngor a chymorth (IAA) i helpu unigolion awtistig a’u teuluoedd i wneud dewisiadau gwybodus a chael mynediad at wasanaethau priodol. Cydweithir â Thîm Derwen i gefnogi pobl ifanc sydd â diagnosis o awtistiaeth, gan gynnig cyrsiau i ddatblygu sgiliau byw’n annibynnol a gweithdai i helpu unigolion wella eu dealltwriaeth o’u hawtistiaeth.

3.2.4. **Imiwneiddio**

3.2.4.1. Mae'r Tîm Nyrsio Plant Mewn Gofal yn gweithio'n agos iawn gyda thimau Imiwneiddio Gwynedd i sicrhau bod gan ein Plant Mewn Gofal statws imiwneiddio cyfredol lle bynnag y bo modd. O'r 281 o blant Gwynedd, a'r 44 ychwanegol o blant mewn gofal sydd wedi'u lleoli yng Ngwynedd ond o dan ofal awdurdod arall, mae gennym 252 wedi derbyn eu brechiadau dyledus.

3.2.4.2. Gall fod llawer o resymau pam fod plant ddim wedi ei imiwneiddio yn llawn, gan gynnwys diffyg caniatâd, symudiadau rhwng ardaloedd, salwch a chanslo apwyntiadau. Mae rhai brechiadau yn cael eu rhoi hefyd dros gyfnod o wythnosau neu fisoedd ac felly nid yw’n cael ei gofnodi nes bod y cwrs wedi'i gwblhau.

3.2.5. **Hyfforddiant**

3.2.5.1. Mae Nyrsys Plant mewn Gofal wedi bod yn darparu hyfforddiant parhaus i nyrsys ysgol sydd newydd gymhwyso ac Ymwelwyr Iechyd. Mae hyfforddiant hefyd wedi ei ddarparu i wasanaethau ysbyty acíwt er mwyn egluro'r camau i'w cymryd pan fydd plentyn mewn gofal yn cael ei dderbyn i'r ysbyty.

3.2.5.2. Mynychodd y gwasanaeth ddigwyddiad a gynhaliwyd gan Tîm Maethu Gwynedd yn mis Medi er mwyn hyrwyddo iechyd a lles a darparu gwasanaeth cyfeirio a chyngor ar y diwrnod. Bwriedir gynnal digwyddiad arall tebyg yn mis Mai.

3.3. <u>Addysg o safon uchel</u>

3.3.1. Gan fod y cyfnod peilot Cenedlaethol wedi dod i ben mae rôl y Pennaeth Rhithiol Plant Mewn Gofal yn wedi ei chynnwys yng nghyfrifoldebau'r Swyddog Llesiant a Chydraddoldeb yr Adran Addysg. Mae'r Swyddog Llesiant a Chydraddoldeb, yng nghyd â'r Cydlynydd Plant Mewn Gofal, yn sicrhau'r ddarpariaeth gorau ar gyfer y plant mewn gofal, gan edrych ar ddeilliannau o gychwyn eu cyfnod yn yr ysgol i ôl-16.

3.3.2. Yn ystod y flwyddyn parhaodd y gwaith monitro a sicrhau ansawdd Cynlluniau Addysg Bersonol Plant mewn Gofal drwy hyfforddi a chefnogi ysgolion ar sut i'w llunio yn effeithiol gan gynnwys targedau addysgol a lles pwrpasol.

3.3.3. Ymgynghorwyd ymhellach ag ysgolion er mwyn sefydlu trefn ac amserlen i gasglu data a gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn rheolaidd. Drwy wneud hynny gellir dadansoddi canlyniadau yn erbyn lefelau targed y disgyblion yn ogystal â chael mynediad at adroddiadau cynnydd ac adroddiadau blynyddol yn rhwydd.

3.3.4. Yn sgil newid yn y dull cyllido gan y Llywodraeth, addaswyd y dull o gynllunio, darparu a gwerthuso'r defnydd o'r Grant Datblygu i Blant Mewn Gofal gan ddefnyddio dau fodel:

- **Grant Bwrsari unigol** – Bydd pob plentyn mewn gofal, trwy eu hysgol, rhieni maeth neu weithiwr cymdeithasol, yn gallu gwneud cais am hyd at £500 i ddiwallu anghenion unigol y dysgwr. Mae'r gwariant a'r ceisiadau yn cael eu monitro yn agos er mwyn sicrhau gwariant effeithiol a'r gwerth gorau am arian.
- **Grant Clwstwr** - Mae pob Clwstwr o ysgolion yn derbyn swm penodol o arian (yn ddibynnol ar niferoedd o blant mewn gofal) i gyllido cydweithio effeithiol rhwng ysgolion drwy rannu arferion llwyddiannus a/neu gyllido hyfforddiant perthnasol. Mae gofyn i'r ysgol gyflwyno ceisiadau cryno yn amlinellu bwriadau er mwyn sicrhau ansawdd a gwerth i'r cyllid.

3.3.5. Cyflwynwyd cyfres arholiadau llawn ar gyfer cymwysterau TGAU yn Haf 2023. Roedd y canlyniadau ar gyfer Plant Mewn Gofal yn dangos bod:

- **20** o ddisgyblion Gwynedd yn blant mewn gofal yn eu blwyddyn olaf o addysg statudol (blwyddyn 11) ac yn ddisgyblion oedd wedi bod mewn gofal ers dros 12 mis**.**
- Pob disgybl wedi derbyn cyfle i sefyll amrywiaeth eang o arholiadau allanol megis TGAU, BTEC, Lefel mynediad a Bagloriaeth Cymru yn unol â'i diddordeb a'u gallu.
- Y mwyafrif wedi llwyddo i symud i gyrsiau coleg addas neu ymlaen i Flwyddyn 12 yn yr ysgolion.
- Y canlyniadau'n amrywio o ddisgybl i ddisgybl, gan adlewyrchu galluoedd unigryw pob dysgwr. Er bod un plentyn wedi cyflawni canlyniadau rhagorol gyda 10 A*, mae'n bwysig cydnabod y dylid gwerthuso llwyddiant yn seiliedig ar amgylchiadau a chyflawniadau unigol.
- Sawl un wedi manteisio ar y cyfle i dderbyn Grant Bwrsari Unigol Plant Mewn Gofal y Llywodraeth i ddatblygu elfennau o'u haddysg.

3.3.6. Bu i dros **800** o staff ysgolion fynychu hyfforddiant 'Ysgol sy'n ymwybodol o drawma' yn Medi 2023. Bydd yr hyfforddiant cyffredinol yn cael ei gynnig eto yn fuan yn nhymor yr Hydref. O ddata a dderbyniwyd gan ysgolion mae:

- **93%** o ysgolion wedi cyflawni math o hyfforddiant ymwybodol o drawma.
- Dros hanner yr ysgolion gydag o leiaf un aelod o staff wedi cyflawni hyfforddiant lefel diploma.
- **15%** o ysgolion gyda rhwng 2-5 aelod wedi cyflawni'r diploma.
- Dros hanner ysgolion Gwynedd wedi cyflawni hyfforddiant tîm rheoli.
- Dros **75%** o ysgolion wedi cyflawni'r hyfforddiant staff cyfan gyffredinol.

3.3.7. I'r dyfodol bydd y Pennaeth Rhithiol a'r Cydlynydd Plant mewn Gofal yn:

- Datblygu a chynnig arlwy o hyfforddiant i ysgolion er mwyn cefnogi plant mewn gofal.
- Parhau i drefnu hyfforddiant cyffredinol 'Ysgolion sy'n ymwybodol o drawma' ar gyfer ysgolion Gwynedd.
- Gwerthuso'r drefn newydd ddosrannu'r arian Grant Plant Mewn Gofal gan addasu yn ôl yr angen.
- Gweithredu'r amserlen a'r trefniadau i gasglu a dadansoddi cynnydd a chanlyniadau'r disgyblion.

3.4. Codi ymwybyddiaeth a chymryd cyfrifoldeb

3.4.1. Trefnwyd rhagor o sesiynau hyfforddiant Rhiant Corfforaethol i holl Aelodau Etholedig y Cyngor. Yn anffodus, mae'r nifer sy'n mynychu yn parhau yn isel ac mae trafodaethau ar y gweill er mwyn sicrhau fod mwy o Aelodau yn cymryd mantais o'r hyfforddiant fel eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau statudol yn y maes hwn.

3.4.2. Gyda Gwynedd yn lletya Eisteddfod 2023 ym Moduan, cymerwyd y cyfle i gynnal sesiwn trafodaeth "Sgwrs o'r Galon" lle gwelwyd gofalwyr maeth o bob rhan o Wynedd yn sôn am eu profiadau personol ac am y rhesymau y bu iddynt faethu, yn ogystal â'r gefnogaeth oedd ar gael gan y Cyngor a phartneriaid.

3.4.3. Yn ogystal, fe sicrhawyd fod teuluoedd maeth yn gallu hawlio tocyn diwrnod am ddim i fynychu maes yr Eisteddfod, gyda thocyn bwyd a thocyn teithio hefyd yn cael ei gynnig. Manteisiodd **27** o deuluoedd maeth ar y cynnig hwn.



3.5. Cynnig Maethu

3.5.1. Yn ystod 2023/24 edrychodd y Panel ar ddatblygu'r pecyn cefnogaeth i rieni maeth, gan ystyried buddiannau fel aelodaeth Canolfan Hamdden am ddim, gostyngiad treth Cyngor a thocyn am ddim i feysydd parcio'r Cyngor. Y gobaith yw y bydda'r *Cynnig Maethu* yn annog a denu mwy i fod yn rhieni maeth yng Ngwynedd, yn ogystal â dangos ein gwerthfawrogiad i'r gofalwyr ffyddlon, ymroddedig a phrofiadol sydd gennym eisoes.

3.5.2. Cynnull Grŵp Tasg a Gorffen yn ystod Ionawr 2023 ac rhoddwyd gais i holl Adrannau'r Cyngor fod yn edrych ar yr hyn y gallai ei gynnig er mwyn bod yn flaengar wrth ddenu rhagor o ofalwyr maeth. Bwriedir gyflwyno'r pecyn yn ffurfiol i'r Cabinet yn ystod 2024/25, cyn bwrw ymlaen i sefydlu'r cynnig.

## 4. Blaenoriaethau ar gyfer 2024/25

4.1. Yn ystod 2024/25 bwriedir:

- Gweithredu'r *Cynnig Maethu* er mwyn annog a denu mwy i fod yn rhieni maeth yng Ngwynedd;
- Barhau i fonitro'r prosiect Cartrefi Grŵp Bach (sy'n rhan o Gynllun y Cyngor 2023-28), gan edrych yn eiddgar at agoriad y cartref cyntaf yn ystod y flwyddyn;
- Craffu hyd a chwmpas y cyfnod aros am asesiadau iechyd, gan edrych ar y prif resymau neu rwystrau dros unrhyw oedi;
- Edrych ar y camau sydd angen er mwyn dod yn "Gyngor Trawma Ymwybodol", gan roi ystyried goblygiadau unrhyw adnodd ychwanegol fyddai ei angen;
- Cynnal sesiynau hyfforddiant pellach er mwyn gwneud yn siŵr fod holl Aelodau Etholedig y Cyngor yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau statudol yn y maes hwn.
- Ail-gyflwyno'r Strategaeth Rhiantu Corfforaethol i'r Cabinet, gan ymrwymo i'r egwyddorion a ymgorfforir yn y Siarter Rhiantu Llywodraeth Cymru.